# Asesiad Effaith COVID-19 ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2 - Sylfaen Dystiolaeth, Polisïau a Strategaeth

**Hydred 2020**

# Cynnwys


Cefndir....3

Cam Paratoi'r Cynllun....3

Sefyllfa Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru....4

Goblygiadau'r Strategaeth....4

Gweledigaeth ac Amcanion....4

Tabl 1: Asesiad o Amcanion y CDLl yn erbyn blaenoriaethau LlC a chamau gweithredu ar gyfer lleoedd ar ôl Covid-19....6

Y Strategaeth....9

Sylfaen Dystiolaeth....9

Polisïau....10

Strategaeth Ofodol....11

Casgliad....12

Y Camau Nesaf....12

Atodiad 1: Asesiad o Sensitifrwydd Sylfaen Dystiolaeth i Effeithiau Covid-19....13

Atodiad 2: Asesiad o Sensitifrwydd Polisïau Strategol i Effeithiau Covid-19....24

# Cefndir

1. Ar 23 Mawrth 2020, cyflwynodd y DU Gyfnod Clo llawn mewn ymateb i bandemig byd-eang Covid-19. Mae'r pandemig wedi achosi marwolaethau sylweddol yn y DU a ledled y byd. Mae'r Cyfnod Clo, o ganlyniad i hyn, ynghyd â newidiadau sylweddol parhaus mewn ymddygiadau ac arferion bob dydd, yn arwain at newidiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol.

2. Ym mis Gorffennaf 2020, anfonodd Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru lythyr at holl Arweinwyr a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Yn y llythyr hwn, gofynnodd i'r Awdurdodau Lleol fyfyrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau mewn perthynas â'r CDLlau sy'n cael eu hadolygu neu'n cael eu gweithredu. Awgrymodd y llythyr y dylai'r CDLlau hynny sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd, nad ydynt eto wedi'u cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harchwilio, gynnal asesiad o'r sylfaen dystiolaeth, y strategaeth a'r polisïau o ran sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Dylai'r asesiad hwn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda cheisiadau i ymestyn Cytundebau Cyflenwi. Mae Cyngor Sir Penfro yn un o'r awdurdodau y mae ei CDLl 2 yn cael ei adolygu, ond nad yw eto wedi cyflwyno ei Gynllun newydd i Lywodraeth Cymru.

3. Y ddogfen hon yw asesiad Cyngor Sir Penfro o oblygiadau Covid-19 ar Gynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro, ei sylfaen dystiolaeth, ei bolisïau a'i strategaeth. Mae'n nodi pa feysydd o sylfaen dystiolaeth y CDLl y gallai fod angen eu diweddaru neu le mae angen ymchwil newydd. Mae hefyd yn nodi'r meysydd hynny lle mae newidiadau polisi yn debygol fel ymateb i effeithiau'r pandemig ac mae'n crynhoi'r effeithiau posibl ar strategaeth gyffredinol y CDLl. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chytundeb Cyflenwi diwygiedig yr Awdurdod (2020) sy'n nodi amserlen ddiwygiedig a chynllun cynnwys cymunedol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2.

# Cam Paratoi'r Cynllun

4. Bu Cyngor Sir Benfro yn ymgynghori ar ei Gynllun Adnau rhwng 15 Ionawr a 18 Mawrth 2020. Ni effeithiwyd ar yr ymgynghoriad gan y Cyfnod Clo a gyflwynwyd yn ddiweddarach ym mis Mawrth. O ganlyniad i'r ymgynghoriad, derbyniodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) nifer sylweddol o sylwadau. Bydd rhannau o'r Cynllun y mae'r ACLl yn dymuno eu newid, neu y bydd angen iddo gasglu tystiolaeth ychwanegol yn eu cylch, o ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau a dderbyniwyd. Yn ogystal â hyn, mae yna feysydd penodol o sylfaen dystiolaeth, polisïau a strategaeth y gallai fod angen eu newid a hynny oherwydd sensitifrwydd i effeithiau Covid-19.

5. Mae gan yr Awdurdod gyfle i nodi Newidiadau â Ffocws y mae'n dymuno eu gwneud i'r Cynllun Adnau. Yn dilyn y diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth a nodir isod, mae'r Awdurdod yn bwriadu paratoi Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yng Ngwanwyn 2021. Bydd hyn yn caniatáu i'r Awdurdod gyflwyno unrhyw newidiadau a nodwyd yn ôl yr angen i bolisïau a strategaeth y Cynllun. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd yr Awdurdod wedyn yn cyflwyno'r Cynllun Adnau fel y'i diwygiwyd trwy Newidiadau â Ffocws i Lywodraeth Cymru.

# Sefyllfa Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru

6. Mae fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn Bolisi Cynllunio Cymru fel y'i cefnogir gan y Nodiadau Cyngor Technegol. Ym mis Gorffennaf 2020, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddogfen: 'Adeiladu Lleoedd Gwell, Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair, Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19'. Mae'r ddogfen yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru a fydd yn cynorthwyo gyda gweithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r ddogfen yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu cymdeithas lanach, wyrddach, gyda datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi ac un sy'n parchu'r amgylchedd, gan roi lleoedd da i bobl fyw ynddynt sy'n hygyrch ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus.

7. Mae'r ddogfen yn nodi meysydd penodol o'r polisi cenedlaethol presennol a ddylai fod yn ganolbwynt ystyriaeth a gweithredu, er mwyn gweithredu fel catalydd ar gyfer adferiad ar draws pileri datblygu cynaliadwy. Mae'r wyth mater a nodwyd fel a ganlyn:

- **Aros yn lleol: creu cymdogaethau**
- **Teithio Llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir**
- **Adfywio canol ein trefi**
- **Lleoedd digidol: rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud**
- **Arferion gwaith sy'n newid: yr angen am dir cyflogaeth yn y dyfodol**
- **Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru**
- **Seilwaith Gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol**
- **Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles.**

# Goblygiadau'r Strategaeth

8. Mae'r CDLl wedi'i ddatblygu gyda ffocws ar ddatblygu cynaliadwy ac i fod yn unol â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru ac amcanion Cynllun Llesiant Sir Benfro. Roedd y CDLl Adnau yn seiliedig ar gyd-destun y polisi a'r heriau allweddol a nodwyd o dystiolaeth gefndir ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Bydd yr heriau allweddol, a ddatblygwyd yn amcanion i'r Cynllun eu cyflawni, yn cael eu hasesu yn erbyn y ddogfen Adeiladu Lleoedd Gwell.

## Gweledigaeth ac Amcanion

9. Dyma Weledigaeth y CDLl Adnau:

**Yn 2033, mae Sir Benfro yn lle ac iddo gymunedau dyfeisgar cryf, lle'r eir i'r afael yn llwyddiannus â heriau gwledigrwydd a newid yn yr hinsawdd. Mae ymdeimlad unigryw o le yn bodoli yn seiliedig ar ei dirwedd naturiol, ei dreftadaeth ddiwylliannol, adeiledig ac ieithyddol. Darperir cartrefi i bawb ac mae economi gref yn galluogi pobl o bob oed i fyw, gweithio a**

**ffynnu yn y Sir. Hyrwyddir cyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â busnesau cychwynnol, twristiaeth, arallgyfeirio gwledig, y diwydiant ynni gwyrdd a glas a sectorau newydd sy'n gysylltiedig â'r cyfleoedd strategol a ddarperir gan Ddyfrffordd Aberdaugleddau ynghyd â chysylltiadau ag Iwerddon. Mae Canol Trefi yn lleoedd bywiog lle gwelir ystod o ddulliau defnyddio ar waith. Cefnogir datblygiad gan seilwaith allweddol. Ar draws y Sir, caiff isadeiledd gwyrdd a bioamrywiaeth eu gwella, gydag amgylcheddau hygyrch ac iach yn cael eu darparu ar gyfer pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.**

10. Ystyrir bod y Weledigaeth yn darparu persbectif unigryw a lleol ar y fframwaith polisi cenedlaethol, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Sir Benfro. I gyflawni'r Weledigaeth, nodwyd 11 Amcan (A-J).

11. Er mwyn sicrhau bod y Weledigaeth a'r Amcanion yn berthnasol ar ôl Covid-19, cynhaliwyd asesiad er mwyn nodi a ydynt yn cwmpasu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer lleoedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Adeiladu Lleoedd Gwell (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020). Gweler tabl 1 a'r sylwebaeth ganlynol.

Tabl 1: Asesiad o Amcanion y CDLl yn erbyn blaenoriaethau LlC a chamau gweithredu ar gyfer lleoedd ar ôl Covid-19

| Blaenoriaethau LlC | Aros yn lleol | Teithio llesol | Adfywio ein trefi | Lleoedd digidol | Newid arferion gwaith | Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru | Seilwaith Gwyrdd iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol | Gwella ansawdd aer a seinwedd er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan y CDLl | | | | | | | | |
| A) Lliniaru ac ymateb i her Newid Hinsawdd | √ | √ | | √ | √ | | √ | √ |
| B) Cyflwyno datblygiad o ansawdd uchel lle mae creu lleoedd yn cael ei ategu gan ddylunio cynaliadwy sy'n ymateb yn briodol i dreftadaeth ddiwylliannol ac adeiledig, tirwedd a threfwedd | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ |
| C) Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol trwy gefnogi busnesau cychwynnol, arallgyfeirio gwledig, newid arferion amaethyddol, yr economi ymwelwyr, ac ehangu Mentrau Bach a Chanolig | √ | | √ | √ | √ | √ | | |
| D) Cynnal cymunedau dyfeisgar trwy ddarparu ystod a chymysgedd o gartrefi a gefnogir | √ | √ | | √ | | | | |

| Blaenoriaethau LlC | Aros yn lleol | Teithio llesol | Adfywio ein trefi | Lleoedd digidol | Newid arferion gwaith | Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru | Seilwaith Gwyrdd iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol | Gwella ansawdd aer a seinwedd er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gan gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol | | | | | | | | |
| E) Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer ynni gwyrdd/glas, morwrol a datblygiad cysylltiedig â phorthladdoedd | | | | | √ | | | |
| F) Amddiffyn a hyrwyddo'r iaith Gymraeg | | | | | | √ | | |
| G) Cefnogi ystod o ddulliau defnyddio yng Nghanol Trefi er mwyn cynorthwyo adfywio | √ | | √ | | √ | | | |
| H) Hyrwyddo amgylcheddau hygyrch ac iach i bobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd trwy amddiffyn a darparu seilwaith gwyrdd | √ | √ | √ | | | | √ | √ |
| I) Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau trwy hwyluso gwelliannau mewn seilwaith a chyfleusterau cymunedol a chyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy | √ | √ | √ | √ | √ | | √ | |

| Blaenoriaethau LlC | Aros yn lleol | Teithio llesol | Adfywio ein trefi | Lleoedd digidol | Newid arferion gwaith | Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru | Seilwaith Gwyrdd iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol | Gwella ansawdd aer a seinwedd er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| **J) Amddiffyn a gwella amgylchedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd y Sir.** | | | | | | √ | √ | √ |
| **K) Atal gwastraff rhag codi a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n gyfrifol.** | | | | | | | √ | |

**Aros yn Lleol: Creu cymdogaethau**

Mae hyn yn cael ei gwmpasu'n llawn gan amcanion y Cynllun.

**Teithio Llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir**

12. Er nad yw amcanion H ac I yn defnyddio'r term ‘teithio llesol’ yn benodol, maent yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn.

**Adfywio Canol ein Trefi**

13. Mae amcanion y Cynllun yn ymdrin â hyn yn llawn.

**Lleoedd digidol – rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud**

14. Mae'r troednodyn i Amcan I yn nodi bod Seilwaith yn cynnwys darpariaeth ffonau symudol a band eang, gwelliannau i drafnidiaeth a chapasiti carthffosiaeth. Mae'r Amcanion felly yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd band eang.

**Arferion gwaith sy’n newid – yr angen am dir cyflogaeth yn y dyfodol**

15. Mae amcanion B, C, E, G ac I yn adlewyrchu cydnabyddiaeth y Cynllun o’r newidiadau niferus sy’n digwydd ar hyn o bryd yn economi Sir Benfro a allai gael eu gwaethygu gan Brexit a Covid-19. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys newid arferion amaethyddol, y symudiad tuag at economi Werdd/Glas, mwy o ffocws ar yr economi ymwelwyr a'r angen i gefnogi busnesau newydd. Er nad oes cyfeiriad penodol at weithio gartref – mae hyn wedi'i gwmpasu gan Amcan B. Mae'r Cynllun wedi ceisio cyflawni strategaeth hyblyg a all addasu i'r cyfleoedd economaidd a ddaw i'r amlwg yn ystod y 15 mlynedd nesaf.

**Ailddeffro Sector Twristiaeth a Sector Diwylliannol Cymru**

16. Mae'r Cynllun a'i Amcanion yn cydnabod y rôl allweddol y mae twristiaeth yn ei chwarae yn economi Sir Benfro a phwysigrwydd sectorau diwylliannol.

**Seilwaith Gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol**

17. Cydnabyddir pwysigrwydd mynd i'r afael â'r materion hyn yn amcanion y Cynllun.

**Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles**

18. Nid yw gwella ansawdd aer a seinweddau wedi'u nodi'n benodol yn yr amcanion, ond maent yn rhan hanfodol o gyflawni amcanion B a H a chânt eu cyflawni fel rhan o’r dasg o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (amcan A).

## Y Strategaeth

### Sylfaen Dystiolaeth

19. Mae'r Awdurdod wedi asesu ei Sylfaen Dystiolaeth (gweler Atodiad 1) ac wedi nodi'r meysydd hynny sydd â sensitifrwydd i Covid-19 a'r meysydd hynny lle bydd angen asesiadau diwygiedig neu asesiadau wedi'u diweddaru.

20. Mae meysydd allweddol y sylfaen dystiolaeth y mae'r Awdurdod yn ceisio eu hailasesu, eu diweddaru neu eu creu o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 yn ymwneud â:

**a)** Manwerthu a Chanol Trefi
**b)** Asesiadau Hyfywedd Tai
**c)** Gofyniad Tai
**d)** Yr Economi – safleoedd strategol a sectorau penodol gan gynnwys Twristiaeth
**e)** Darpariaeth band eang, technoleg ddigidol a thelathrebu
**f)** Lleoledd Agored

## Strategaeth Gynaliadwy

21. Mae CDLl 2 yn cynnig y dylid dosbarthu twf ar draws ardal y Cynllun yn unol â strategaeth ofodol sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Elfen allweddol o hyn yw'r Hierarchaeth Aneddiadau, sy'n grwpio aneddiadau i wahanol gategorïau, yn seiliedig ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau a geir ynddynt. Mae'r cynllun eisoes felly yn ymgorffori llawer o'r pethau y mae Llywodraeth Cymru yn cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w hystyried yng nghyd-destun pandemig Covid-19. Er enghraifft, trwy baru darpariaeth tai newydd gydag argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau, bydd hyn yn helpu pobl i aros yn lleol. Yn ogystal, yng nghyd-destun teithio cynaliadwy, mae'r hierarchaeth aneddiadau wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, felly bydd darpariaeth tai newydd yn tueddu i ffafrio lleoliadau lle ceir cyfleoedd i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd cysylltedd rhwng trefi ac aneddiadau llai yn helpu gydag adfywio canol trefi fel lleoedd lle gall pobl gwrdd yn ddiogel a chyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

## Polisïau

22. Profwyd Polisïau Strategol y Cynllun am eu sensitifrwydd i Covid-19; gyda chamau gweithredu a nodwyd ar gyfer y meysydd hynny lle gallai fod angen diwygiadau (gweler Atodiad 2). Gellir diwygio'r meysydd polisi canlynol trwy Newidiadau â Ffocws fel ymateb penodol i ganlyniad tebygol Covid-19:

**a)** Ffiniau a ffryntiadau penodol Canol Tref yn ogystal â geiriad polisi manwerthu
**b)** Targedau tai fforddiadwy a'r gofynion mewn perthynas â safleoedd unigol a nodir o fewn Safleoedd Datblygu a Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Seilwaith yn dilyn arfarniadau hyfywedd wedi'u diweddaru a baratowyd ar y cyd â chynigwyr safleoedd
**c)** Lefel gyffredinol y twf tai a nodwyd
**d)** Lefel gyffredinol y tir cyflogaeth a nodwyd a'r targed swyddi
**e)** Canfod dyraniadau tai penodol
**f)** Gall geiriad penodol polisi ar Gyflogaeth, Twristiaeth ac Amaethyddiaeth newid a gellir dileu neu ychwanegu dyraniadau penodol.
**g)** Mae geiriad a gofynion penodol polisi ynghylch band-eang yn debygol o newid i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol gweithio o bell a gwybodaeth wedi'i diweddaru gan ddarparwyr band eang. Bydd cyfeiriadau yn y cynllun at dechnoleg ddigidol a thelathrebu yn ehangu.
**h)** Bydd geiriad penodol ynghylch mannau Amwynder agored a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynlluniau tyfu cymunedol yn cael eu cyflwyno. Bydd CCA Cynllun Lle manwl yn cael ei ddwyn ymlaen ar ôl mabwysiadu'r CDLl er mwyn cefnogi'r broses o

gymunedau'n gwneud penderfyniadau ynghylch mannau agored yn eu hardaloedd. Bydd hyn yn adeiladu ar sylfaen dystiolaeth bresennol y Cynllun a nodir yng Nghynllun Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro a'r dynodiadau mannau agored a lletem werdd presennol.

23. Canllawiau polisi ychwanegol, manwl, Penodol ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi GN. 13 Cymysgedd Tai, safonau Gofod a gofynion ar gyfer Safonau Cartref Oes o amgylch lleoedd mewn cartrefi a gofod y tu allan.

24. Gellir awgrymu diwygiadau polisi eraill hefyd fel Newidiadau â Ffocws o ganlyniad i bwyntiau a wnaed trwy sylwadau i'r Cynllun, ac oherwydd newidiadau cyd-destunol eraill a nodwyd trwy'r asesiad sylfaen dystiolaeth ehangach.

## Strategaeth Ofodol

25. Fel y nodir ym Mharagraff 22, mae'r Awdurdod o'r farn bod y dull sylfaenol, sydd y tu ôl i'r Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy ac sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun, yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw atynt fel rhai allweddol o ran yr ymateb i Covid-19; mae hyn yn cynnwys Aros yn Lleol a Theithio Lleol. Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn debygol y bydd angen ailasesu'r strategaeth ofodol drefol/wledig 60/40 a nodir yng Nghynllun Adnau'r CDLl 2 oherwydd Covid-19, ond bydd yn archwilio sylwadau a dderbyniwyd ar y strategaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

    Fel y nodir ym Mharagraff 22, mae'r Awdurdod o'r farn bod y dull sylfaenol, sydd y tu ôl i'r Strategaeth Aneddiadau Cynaliadwy, a gynhwysir yn y Cynllun yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw atynt fel rhai allweddol o ran yr ymateb i Covid-19; mae hyn yn cynnwys Aros yn Lleol a Theithio Llesol. Nid yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn debygol y bydd angen ailasesu'r strategaeth ofodol drefol/wledig 60/40 a nodir yng Nghynllun Adnau'r CDLl 2 oherwydd Covid-19, ond bydd yn archwilio sylwadau a dderbyniwyd ar y strategaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

26. Bydd yr Awdurdod yn ailystyried Asesiad Marchnad Tai Lleol diwygiedig a data Demograffig, gan gynnwys diweddariadau yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth seiliedig ar 2018 wrth asesu ei strategaeth dai. Bydd gwybodaeth gan gynigwyr y safle yn llywio Trywydd Tai fydd wedi'i ddiweddaru. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn colli swyddi yn gwaethygu'r angen sylweddol sy'n bod eisoes am dai fforddiadwy yn Sir Benfro, ond mae strategaeth y Cynllun eisoes yn dibynnu ar sicrhau'r modd mwyaf posibl o ddarparu tai fforddiadwy yng nghyd-destun yr hyn sy'n ddichonadwy.

27. Bydd lefel y tir cyflogaeth a dulliau gweithredu polisi o ymdrin â safleoedd presennol a newydd yn cael eu hailasesu yng ngoleuni'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd tystiolaeth ychwanegol yn dangos bod angen newidiadau sy'n ddigon sylweddol i newid Strategaeth y Cynllun yn sylfaenol o'r hyn a nodir yn y fersiwn Adnau.

28. Er y gall Covid-19 waethygu materion penodol e.e. canol tref sy'n dirywio neu'r angen am fand eang i sicrhau mynediad at wasanaethau a gweithio gartref, mae'r rhain yn

faterion sydd eisoes wedi'u nodi yn y Cynllun. Efallai y bydd angen mireinio dulliau gweithredu polisi mewn perthynas â rhai o'r materion hyn, ond mae'r newidiadau hyn yn annhebygol o effeithio'n sylfaenol ar strategaeth ehangach y Cynllun. Mae Covid-19 hefyd wedi cynyddu'r ffocws ar bwysigrwydd mynediad at seilwaith gwyrdd a lleoedd priodol mewn tai. Unwaith eto, mae'r rhain yn faterion yr ymdriniwyd â hwy eisoes yng Nghynllun Adnau'r CDLl ac mae'r Awdurdod yn debygol o ychwanegu at y dull gweithredu presennol yn y maes hwn trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol, heb fod angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun.

### Casgliad

29. I grynhoi, er bod goblygiadau Covid-19 yn eang ac mewn rhai achosion heb ddod i'r amlwg yn llawn hyd yma, mae'r CDLl 2 yn seiliedig ar strategaeth sy'n canolbwyntio ar aneddiadau cynaliadwy, y gallu i'w cyflawni a sicrhau hyblygrwydd ar gyfer ystod o senarios dros gyfnod o 15 mlynedd.

30. Mae'r Strategaeth a'r Polisïau Strategol ategol yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10). Mae'r Weledigaeth yn unigryw ac mae hyn, ynghyd ag amcanion y Cynllun, yn cwmpasu'r holl flaenoriaethau a'r camau gweithredu a nodwyd yn y ddogfen Adeiladu Lleoedd Gwell. Yn dilyn diweddariadau i'r sylfaen dystiolaeth mae'n debygol y bydd angen newidiadau trwy Newidiadau â Ffocws er mwyn cryfhau neu fireinio ffocws y Cynllun mewn meysydd penodol fel ymateb i Covid-19, ond mae'r rhain yn annhebygol o arwain at newidiadau strategol sylweddol i'r CDLl.

## Y Camau Nesaf

31. Mae'r Awdurdod yn gofyn am Gytundeb Cyflenwi diwygiedig gyda Chynllun Amserlen a Chynnwys Cymunedol diwygiedig. Mae'r Amserlen ddiwygiedig hon yn adlewyrchu'r angen i gyflawni'r gwaith ychwanegol a nodwyd yn y papur hwn, cyn cyhoeddi Newidiadau â Ffocws. Mae'r diwygiadau a gynigiwyd i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch Covid-19 a'r angen i gynnal ymgynghoriadau yn y dyfodol gan arfer ymbellhau cymdeithasol ac, o bosibl, yng nghyd-destun Cyfnodau Clo pellach.

## Atodiad 1: Asesiad o Sensitifrwydd Sylfaen Dystiolaeth i Effeithiau Covid-19

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Datganiad CSP ac APCAP o Dir Cyffredin (2018) | Ddim yn sensitif | Diweddariad i adlewyrchu adroddiad Arolygydd APCAP ac unrhyw newidiadau a gyflwynwyd fel *FC*au i Gynllun CSP | Bydd *SOCG* wedi'i ddiweddaru yn cael ei baratoi cyn cyflwyno CDLl Sir Benfro. |
| Adroddiad Adolygu | Ddim yn berthnasol | Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori y bydd Asesiad Covid-19 ar gyfer y CDLl yn diweddaru'r ddogfen hon mewn perthynas â sensitifrwydd i effeithiau Covid-19 ar y CDLl. | Ni chyhoeddir diweddariad - mae Asesiad Covid-19 yn darparu safbwynt wedi'i ddiweddaru ar hyn. |
| Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol | Ddim yn sensitif | Bydd adroddiad ymgynghori ar sylwadau'r Cynllun Adnau yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn 2021. | Nid oes angen diweddariad. Bydd adroddiad ymgynghori newydd yn cael ei baratoi a fydd yn mynd i'r afael â sylwadau'r Cynllun Adnau. |
| Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Asesiad Effaith Cydraddoldeb | Ddim yn sensitif | | Nid oes angen diweddariad. |
| Cynllun Adnau Asesiad Effaith Cydraddoldeb | Ddim yn sensitif | Bydd angen asesiad newydd er mwyn mynd i'r afael â'r Newidiadau â Ffocws a nodwyd. | Nid oes angen diweddariad. Cyhoeddir asesiad newydd mewn perthynas ag unrhyw Newidiadau â Ffocws a nodwyd. |
| Adborth gan weithdy Rhanddeiliaid, Aelod a Chyngor Tref a Chymuned Medi 2018: Opsiynau Strategol | Ddim yn sensitif | | Nid oes angen diweddariad. |

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Adborth gan y cyhoedd ym mis Medi 2018: Opsiynau Tai Strategol | Ddim yn sensitif | | Nid oes angen diweddariad. |
| Adborth o weithdai Cyngor Tref a Chymuned Ionawr 2019: Ymgynghoriad Cyn Adnau | Ddim yn sensitif | | Nid oes angen diweddariad. |
| Adborth o weithdy Rhanddeiliaid Ionawr 2019: Ymgynghoriad Cyn Adnau | Ddim yn sensitif | | Nid oes angen diweddariad. |
| Papur Cefndir Canolfannau Manwerthu a Masnachol - Diweddariad Gorffennaf 2019 | Hynod Sensitif | Oes - Arweiniad polisi wedi'i ddiweddaru Adeiladu Lleoedd Gwell gan Lywodraeth Cymru | Cynhyrchir papur wedi'i ddiweddaru. |
| Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol De-orllewin Cymru - Adroddiad Terfynol - Chwefror 2017, Atodiadau, Erratum, Cyflwyniad a Chrynodeb | Sensitif | Mae adeiladu lleoedd gwell yn cynghori 'y dylid disodli asesiadau manwerthu mewn cynlluniau datblygu gydag asesiadau canol tref'. Dylid rhagweld paratoi papur ychwanegol byr yn cadarnhau bod CS wedi cael gwahoddiad a dull y polisi yn ganolfan gyfan. | Cynhyrchir papur byr ychwanegol. |
| Fframwaith Adfywio Strategol Abergwaun ac Wdig - Ebrill 2019 | Sensitif | | Bydd unrhyw wybodaeth neu brosiectau wedi'u diweddaru a ddatblygwyd gan gydweithwyr ym maes Adfywio yn cael eu hasesu wrth ddatblygu Newidiadau â Ffocws. |

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Fframwaith Adfywio Strategol Penfro - Chwefror 2018 | Sensitif | | Bydd unrhyw wybodaeth neu brosiectau wedi'u diweddaru a ddatblygwyd gan gydweithwyr ym maes Adfywio yn cael eu hasesu wrth ddatblygu Newidiadau â Ffocws. |
| Fframwaith Adfywio Strategol Doc Penfro - Chwefror 2018 | Sensitif | | Bydd unrhyw wybodaeth neu brosiectau wedi'u diweddaru a ddatblygwyd gan gydweithwyr ym maes Adfywio yn cael eu hasesu wrth ddatblygu Newidiadau â Ffocws. |
| Fframwaith Adfywio Strategol DRAFFT Aberdaugleddau Gorffennaf 2018 | Sensitif | | Bydd unrhyw wybodaeth neu brosiectau wedi'u diweddaru a ddatblygwyd gan gydweithwyr ym maes Adfywio yn cael eu hasesu wrth ddatblygu Newidiadau â Ffocws. |
| Hwlffordd, Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol Awst 2016 | Sensitif | | Bydd unrhyw wybodaeth neu brosiectau wedi'u diweddaru a ddatblygwyd gan gydweithwyr ym maes Adfywio yn cael eu hasesu wrth ddatblygu Newidiadau â Ffocws. |
| Asesiad ac Atodiadau Ynni Adnewyddadwy Ebrill 2017 | Ddim yn sensitif | Efallai y bydd angen papur atodol unwaith y bydd *NDF* wedi'i fabwysiadu, yn dibynnu ar sut mae'r ddogfen honno'n nodi meysydd blaenoriaeth solar ac mewn perthynas â sylwadau a dderbynnir ar y Cynllun Adnau. | Potensial gyda golwg ar gynhyrchu papurau wedi'u diweddaru. |

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Papur Cefndir Atodol Ynni Adnewyddadwy | Ddim yn sensitif | Ni ragwelir diweddariadau. | |
| Asesiad Llety Sipsiwn Teithiol 2015 | Ddim yn sensitif | Disgwylir ymateb LlC i ddiweddariad 2019. | Mae'r ACLl yn gobeithio cyhoeddi asesiad llety 2019 unwaith y bydd Gweinidog LlC yn cymeradwyo hyn. Cyflwynwyd Medi 2019. |
| Adendwm Papur Rhagolygon Demograffig Rhagfyr 2018 | Rhywfaint o sensitifrwydd | Mae'r papur hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni'r rhagamcanion diweddaraf yn seiliedig ar 2018. Mae Covid-19 wedi arwain yn genedlaethol at gyfraddau marwolaeth uwch, ond mae'r rhain yn gyfyngedig iawn hyd yma yng nghyd-destun Sir Benfro. Gall effeithiau posibl tymor hwy ar fudo ddeillio o Covid-19 ond mae'n anodd iawn rhagweld y rhain a bydd y papur yn canolbwyntio ar dueddiadau hanesyddol. | Bydd diweddariad Rhagolygon Demograffig yn cael ei gynhyrchu yn 2020. |
| Papur cefndir Iaith Gymraeg Gorffennaf 2019 | Ddim yn sensitif | Ni ragwelir y bydd angen diweddariad ffurfiol i'r sylfaen dystiolaeth | Ni ragwelir diweddariad. |
| Adroddiad Diffinio Clystyrau Aneddiadau Mai 2019 | Ddim yn sensitif | | Ni ragwelir diweddariad. |
| Asesiad o Angen Tai a Llety Arbenigol ar gyfer Pobl Hŷn yng Ngorllewin Cymru | Rhywfaint o sensitifrwydd yn dibynnu ar batrymau mudo. | Ddim yn berthnasol | Ni ragwelir diweddariad – wedi'i nodi yn niweddariad LHMA yr Adroddiad Lleol. |

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Asesiad Anghenion Tai a Llety ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yng Ngorllewin Cymru | Rhywfaint o sensitifrwydd yn dibynnu ar batrymau mudo. | Ddim yn berthnasol | Ni ragwelir diweddariad – wedi'i nodi yn niweddariad LHMA yr Adroddiad Lleol. |
| Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2019 | Peth sensitifrwydd, ond ymdriniwyd â'r mater eisoes yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae'r pandemig wedi ailddatgan pwysigrwydd bod cymunedau'n gallu cael at gyfleusterau yn hawdd ac mae'r papur sylfaen dystiolaeth hwn yn canolbwyntio ar y mater hwn. | Rhaid mynd i'r afael â rhai materion manwl sy'n codi o sylwadau trwy ddiweddariad | Mae'r asesiad o rôl a swyddogaeth bresennol aneddiadau gwledig yn cynnwys sgorio yn achos y rhai sy'n cael eu cyrchu drwy lwybrau trên a bws. Mae'r pandemig wedi ailddatgan pwysigrwydd cyfeirio datblygiad i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Rhagwelir mân ddiweddariad mewn ymateb i sylwadau a dderbynnir i'r Cynllun Adnau. |
| Adroddiad Aneddiadau Trefol | Rhywfaint o sensitifrwydd, fodd bynnag, fel yn achos yr adroddiad cyfleusterau gwledig - mae pwysigrwydd cymunedau yn cael at wasanaethau wedi'i ymgorffori ym methodoleg yr adroddiad hwn. | Ni ragwelir diweddariad. | Ni ragwelir diweddariad. |

| Papur sylfaen tystiolaeth | Sensitifrwydd i Covid-19 | Angen diweddariad oherwydd bod sylwadau Adnau/ materion cyd-destunol newydd yn dod i'r amlwg | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
